Newyddion Ynni Gwynt

Cynigion Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa a Fferm Wynt Dwyrain Coedwig Brechfa

Fferm Wynt Ffynnon Oer - tyrbinau 2 megawatt, tŵr 58 metr, rotor â diamedr o 70 metr (Ni fwriedir i'r lluniau o ffermydd gwynt gweithredol yn y cylchlythyr hwn gynrychioli ymddangosiad, maint na graddfa Fferm Wynt arfaethedig Coedwig Brechfa.)

Symud ymlaen gyda'r cynigion

Mae RWE npower renewables wedi treulio'r flwyddyn ddiwethaf yn paratoi gwybodaeth sy'n ategu cynnig i osod tyrbinau gwynt yng Nghoedwig Brechfa, Sir Gaerfyrddin.

Rydym wedi bod yn chwilio am y lleoliadau gorau yn y goedwig ar gyfer tyrbinau ac wedi dod i'r casgliad, oherwydd gwahaniaethau daearyddol rhwng y ddau safle, y bydd dau safle ar wahân ar gyfer y ffermydd gwynt ynghyd â dau gais. Y ddau safle rydym am eu cynnig yw:

- Fferm Wynt Gorllewin Coedwig Brechfa, wedi'i chanoli o amgylch dyffryn Afon Pib, i'r dwyrain o Alltwalis
- Fferm Wynt Dwyrain Coedwig Brechfa, wedi'i chanoli o amgylch Banc Llywelau, i'r de o Rydcymerau.

Mae ein hastudiaethau hyd yma yn awgrymu y gallai 28 o dyrbinau gael eu gosod yng Ngorllewin Coedwig Brechfa a 12 yn Nwyrain Coedwig Brechfa.

Er mwyn sicrhau bod y wybodaeth am y ddau gais ar gael i bawb ar yr un pryd, rydym wedi penderfynu trafod y ddau safle gyda'i gilydd wrth ymgynghori a'r gymuned leol.

Esboniodd Bethan Thomas, rheolwr prosiect RWE npower renewables:
"Fel y rheolwr prosiect ar gyfer y ddau safle gellir siarad â mi am y ddau gais. Mae ymholiadau'r trigolion yn debygol o fod yn debyg ar gyfer y ddwy fferm wynt sy'n cael eu cynnig, felly mae'n gwneud synnwyr i gyflwyno'r ddau brosiect yr un pryd. Rydym yn gobeithio'n wir y bydd pobl leol yn manteisio ar y cyfle i'n cyfarfod yn ystod yr arddangosfeydd cyhoeddus, a gwnawn ein gorau i ateb unrhyw gwestiynau'r adeg honno."

Mae cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd cyn y bydd y cynigion terfynol yn barod, ac mae'r cylchlythyr hwn yn darparu gwybodaeth am gynlluniau cyfredol ar gyfer y prosiect ac yn egluro sut y byddant yn datblygu. Yn bwysig, mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am arddangosfeydd cyhoeddus sydd i ddod. Mae'r rhain yn rhoi cyfle i bobl leol ddod i wybod mwy am ein cynigion.

Manylion arddangosfeydd cyhoeddus

TDydd Iau 25ain Mawrth 2010
2pm – 7pm
Neuadd Bentref Llansawel
Llansawel
Llandeilo
SA19 7JH

Dydd Gwener 26ain Mawrth 2010
2pm – 7pm
Neuadd Eglwys Brechfa
Brechfa
Sir Gaerfyrddin
SA32 7RA

Dydd Sadwrn 27ain Mawrth 2010
12pm – 4pm
Ysgol Gynradd Cae'r Felin
Pencader
Caerfyrddin
SA39 9AA

Beth yw'r cynllun ar gyfer Coedwig Brechfa?

Ym mis Tachwedd 2008, llofnododd RWE npower renewables gytundeb yn rhoi'r hawl iddo ddatblygu fferm wynt o bosib ar dir Coedwig Brechfa, a reolir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn dilyn astudiaethau cychwynnol, nodwyd dwy ardal wahanol i'w datblygu; un yn rhan orllewinol y goedwig a'r ail yn y rhan ddwyreiniol. Mae astudiaethau yn awgrymu y gallai 28 o dyrbinau gael eu gosod yng Ngorllewin Coedwig Brechfa a 12 yn Nwyrain Coedwig Brechfa. Bydd cynlluniau drafft o leoliadau'r tyrbinau ar gael yn yr arddangosfeydd cyhoeddus a gellir eu gweld ar y dudalen nesaf. Mae'n bwysig nodi nad y cynlluniau terfynol yw'r rhain ac y gallant eu newid.

Penderfynir ar y cynlluniau ar gyfer y safleoedd yn dilyn trafodaethau gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ar sut i leihau effaith y ffermydd gwynt ar y goedwig. Gellir cyflawni hyn drwy, er enghraifft, leoli'r tyrbinau mewn mannau agored sy'n bodoli eisoes neu ardaloedd lle y torrwyd coed i lawr yn ddiweddar pan yn bosibl, a thrwy wneud y defnydd mwyaf o'r traciau sy'n bodoli eisoes.

Gall ardaloedd o dir a gliriwyd eisoes fod yn lleoliadau da ar gyfer tyrbinau, a gall hyn lleihau'r effaith ar y goedwig

Edrych ar bopeth

Mae datblygu fferm wynt yn cynnwys llawer o astudiaethau technegol ac amgylcheddol cymhleth.

Yn gyntaf, ac yn bwysicaf oll, rhaid i ni sicrhau bod adnodd gwynt dichonadwy. Gwneir hyn drwy ddefnyddio mast mesur gwynt, a gosodwyd pedwar yng Nghoedwig Brechfa.

Mae 'Cais Cwmpasu' yn galluogi'r rhanddeiliaid megis Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd i ddatgan eu barn ar bynciau y dylid eu hystyried yn yr arolwg amgylcheddol yn eu barn hwy, e.e. ecoleg, ornitholeg, trafnidiaeth a thelecom.

Rydym yn defnyddio'r farn gwmpasu hon i fireinio'r astudiaethau rydym yn eu cynnal. Dechreuwyd yr astudiaethau hyn yn ystod gaeaf 2008 ac mae rhai yn parhau i gael eu cynnal er mwyn sicrhau bod gennym wybodaeth drylwyr a chynhwysfawr. Cam nesaf y broses yw'r Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) a fydd yn edrych ar effeithiau posibl y ffermydd gwynt arfaethedig, a sut y gellir eu lleihau.

Ar ôl cwblhau'r AEA ar gyfer Dwyrain Coedwig Brechfa, bydd cais cynllunio yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i Gyngor Sir Caerfyrddin.

Ar ôl cwblhau'r AEA ar gyfer Gorllewin Coedwig Brechfa, bydd ymgynghori pellach ar y cais, gan gynnwys mwy o arddangosfeydd, cyn y gellir cyflwyno cais i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith.

Beth yw'r camau nesaf?

Bydd angen i RWE npower renewables gael caniatâd i godi a gweithredu ffermydd gwynt yng Nghoedwig Brechfa.

Oherwydd y gwahaniaethau mewn maint, bydd y ceisiadau yn dilyn trywydd gwahanol o ran gwneud cais. Mae'r awdurdod lleol yn rhan ffurfiol o bob cais.

Gan fod Dwyrain Coedwig Brechfa yn llai, bydd cais cynllunio lleol yn cael ei gyflwyno i Gyngor Sir Caerfyrddin i'w ystyried.

Gan fod Gorllewin Coedwig Brechfa yn debygol o fod dros 50MW, bydd angen iddo gael ei ystyried gan y Comisiwn Cynllunio Seilwaith. Bydd y corff annibynnol newydd hwn, o 1 Mawrth 2010, yn ystyried ceisiadau am 'Brosiectau Seilwaith Cenedlaethol Bwysig'- gan gynnwys ffermydd gwynt mawr - ac yn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar bolisïau sydd wedi eu llunio gan y Llywodraeth. Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn rhan o bob cam o'r broses ffurfiol.

Mae'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn ymdrin â'r fath geisiadau ar sail genedlaethol, ond mae barn leol yn parhau i fod yn bwysig iawn i'r cynigion hyn. Yn ogystal â'r cylch cyfredol o rannu gwybodaeth â'r cyhoedd, bydd RWE npower renewables yn cynnal ymgynghoriad pellach ar ein cynlluniau manwl pan fydd yr holl wybodaeth am y prosiect ar gael a chyn cyflwyno ein cais i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith.

Bydd y Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn penderfynu ar "Brosiectau Seilwaith Cenedlaethol Bwysig", gan gynnwys ffermydd gwynt mawr

Manylion y prosiect

Symleiddiwyd y mapiau canlynol ar gyfer y cylchlythyr hwn. Bydd rhagor o fanylion am leoliad y tyrbinau ar gael yn yr arddangosfeydd cyhoeddus ym mis Mawrth.

Manylebau

- Gallai'r cynllun cyfredol ddarparu rhwng **56** ac **84 MW** ar gyfer fferm wynt Gorllewin Coedwig Brechfa a rhwng **24** a **36 MW** ar gyfer fferm wynt Dwyrain Coedwig Brechfa[1]
  - Capasiti pob tyrbin wedi'i osod: rhwng 2 MW a 3 MW fesul tyrbin[1]
  - Uchder blaen: hyd at **145m**
- Yn gallu diwallu anghenion ynni cyfatebol hyd at: **33,900** o gartrefi (Gorllewin Coedwig Brechfa); **14,500** o gartrefi (Dwyrain Coedwig Brechfa)[2]
- Yr ardal o fewn Ffiniau Ardal a allai gael ei Datblygu:
  - Gorllewin Coedwig Brechfa: **750** hectar
  - Dwyrain Coedwig Brechfa: **270** hectar
- Cyfanswm maint ardal Coedwig Brechfa: **5,700** hectar.

Troednodiadau:

[1]Mae'r rhagolygon hyn yn benodol i safle ffermydd gwynt arfaethedig RWE npower renewables yng Ngorllewin Coedwig Brechfa a Dwyrain Coedwig Brechfa fel yr amlinellir yn y cylchlythyr hwn.

[2]Mae'r ynni y rhagwelir y caiff ei gynhyrchu gan y cynnig wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio ffactor capasiti tybiedig o 26% (Ffactorau capasiti rhanbarthol Tueddiadau Ynni'r DU yr Adran Masnach a Diwydiant 1998-2004). Ar gyfer Gorllewin Coedwig Brechfa, mae hyn yn seiliedig ar gapasiti tyrbin wedi'i osod o 70MW. Ar gyfer Dwyrain Coedwig Brechfa, mae hyn yn seiliedig ar gapasiti tyrbin wedi'i osod o 30MW. Ar gyfer y ddau leoliad, mae'n bosibl y bydd newid o ran yr ynni a ragamcanir ac felly'r ffigurau cyfatebol ar gyfer cartrefi neu arbedion allyriadau wrth gasglu gwybodaeth am y lleoliad penodol. Seilir y ffigur cyfatebol a gyflenwir i dai ar ddefnydd pob cartref o drydan bob blwyddyn sef 4700 kWh. Cefnogir y ffigwr hwn gan ddata diweddar am ddefnydd domestig o drydan a gyhoeddwyd yn y Crynhoad o Ystadegau Ynni ar gyfer y DU ac amcangyfrifon ac amcanestyniadau mewn perthynas â chartrefi gan Awdurdod Ystadegau'r DU.



Lleoliad Gorllewin Coedwig Brechfa a chynllun arfaethedig cychwynnol y tyrbinau



Lleoliad Dwyrain Coedwig Brechfa a chynllun arfaethedig cychwynnol y tyrbinau

Pam RWE npower renewables?

RWE npower renewables yw un o ddatblygwyr a gweithredwyr ynni adnewyddadwy blaenllaw'r DU, sydd wedi ymrwymo i ddatblygu a gweithredu ffermydd gwynt a gwaith dŵr i gynhyrchu trydan cynaliadwy.

Yn ddiweddar, rydym wedi dechrau gweithio gyda phartneriaid technoleg ynni'r môr i gyflwyno prosiectau ynni tonnau a llanw newydd. Yn ein portffolio ar gyfer Cymru ceir chwe' phrosiect trydan dŵr, dwy fferm wynt ar y môr a saith fferm wynt ar y tir.

Mae RWE yn gyflogwr mawr yng Nghymru, gyda phedair swyddfa ynni adnewyddadwy yn y De, y Canolbarth, a'r Gogledd, Gorsaf Ynni Aberddawan, a dau waith gwres ac ynni cyfunol. At ei gilydd, mae cynhyrchiad ynni confensiynol ac adnewyddadwy RWE yng Nghymru yn cyflenwi tua un rhan o dair o anghenion trydan Cymru.

Cyfathrebu allweddol

Mae ein cyswllt â'r cymunedau rydym yn gweithredu ynddynt yn allweddol i'n llwyddiant, gan ei fod yn ein galluogi i ddatblygu perthynas gadarnhaol a deall materion a phryderon lleol.

Mae RWE npower renewables yn awyddus i gyfarfod â phobl leol sy'n byw yng nghyffiniau Coedwig Brechfa a byddwn yn cynnal arddangosfeydd gwybodaeth gyhoeddus ym mis Mawrth, fel y nodir ar y dudalen flaen.

Yn ystod yr arddangosfeydd hyn bydd cyfle i gael gwybod mwy am brosiectau'r ffermydd gwynt arfaethedig ar eu ffurf ddrafft gyfredol. Yn dilyn yr arddangosfeydd, caiff unrhyw gynnydd a wneir ei rannu drwy gylchlythyrau a bydd y wefan yn cael ei diweddaru er mwyn darparu gwybodaeth yn rheolaidd.

Os hoffech gael y cylchlythyr hwn mewn print bras mae croeso i chi gysylltu â ni: 01738 825132

Yn ystod yr arddangosfeydd, hoffem esbonio sut y bydd ein cynnig yn mynd law yn llaw â'r goedwig

Yn hydref 2009, sefydlwyd Grŵp Cyswllt Cymunedol i alluogi cynrychiolwyr lleol i gyfarfod a thrafod datblygiadau a holi unrhyw gwestiynau am y cynigion. Mae aelodau'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau megis Cynghorau Cymuned, y Cyngor Sir, grwpiau hamdden a'r sector gwirfoddol.

Am ragor o wybodaeth am y Grŵp Cyswllt Cymunedol, ewch i wefan y grŵp: www.brechfaforestclg.org.uk

Argraffwyd y llyfryn hwn ar bapur sydd wedi'i wneud o fwydion sydd wedi eu hardystio gan yr FSC ac fe'i hargraffwyd gan ddefnyddio inc llysiau.

Manteision cymunedol

Os byddwn yn cael caniatâd cynllunio, bydd RWE npower renewables yn cynnig pecyn buddion sydd wedi'i gynllunio'n arbennig i ddiwallu anghenion y gymuned leol.

Mae gan RWE npower renewables enw da am gynnig manteision i'r cymunedau y mae'n gweithredu ynddynt, ac edrychwn ymlaen at ymchwilio i flaenoriaethau posibl y trigolion sy'n byw ger Coedwig Brechfa.

Mae Polisi Cynllunio Ynni Adnewyddadwy'r Cynulliad Cenedlaethol (TAN 8) yn nodi'n glir bod profiad wedi dangos y gellir bod o fudd i'r gymuned drwy ddatblygu ffermydd gwynt.

Mae'r polisi hefyd yn datgan ei bod yn hollol dderbyniol i fusnes lofnodi cytundeb rhwymol cyfreithiol â thrydydd parti er mwyn cynnig manteision penodol a chytûn i'r gymuned.

Yn hwyrach ac ar adeg fwy priodol yn natblygiad y prosiect, byddwn yn dechrau proses fanwl gyda'r gymuned leol, i benderfynu ar y pecyn Manteision Cymunedol mwyaf addas ar gyfer yr ardal leol.

Byddai hwn yn llwyr annibynnol ar y broses gynllunio, gan nad yw'r cynnig o becyn Manteision Cymunedol yn ystyriaeth gynllunio berthnasol.

Bydd rhagor o wybodaeth am y broses a sut y gallwch gymryd rhan yn ymddangos yn y cyfryngau lleol, ar ein gwefan a thrwy sianeli cyfathrebu lleol eraill.

Am ragor o wybodaeth am ein dullo weithredu o ran Manteision Cymunedol, ewch i'r adran 'Benefits' ar ein gwefan:

www.npower-renewables.com

Cysylltu â ni

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y cynigion bydd aelodau'r tîm prosiect yn fwy na pharod i gyfarfod â chi yn yr arddangosfeydd cyhoeddus. Fodd bynnag, os na allwch ddod, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm.

E-bost
brechfaforest@rwe.com
Ffôn
01639 816180
Y We
Mae ein gwefan yn cael ei diweddaru'n rheolaidd: www.npower-renewables.com/brechfaforest

Post
RWE npower renewables Coedwig Brechfa, Uned 22, Technium: Technolegau Cynaliadwy, Rhodfa Ganol, Parc Ynni Baglan, Port Talbot, De Cymru, SA12 7AX

FSC Recycled 100%
POSITIONAL
www.fsc.org Cert no. SGS-COC-0620
© 1996 Forest Stewardship Council